

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

Amodau Trwydded a Nodiadau Esboniadol

1. Mae'r drwydded ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Is-ddeddfau'r Cyngor o dan Adran 68 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ac Adran 171 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 mewn perthynas â cherbydau hacni ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. (Copi ynghlwm)
2. Bydd y gyrrwr, wrth yrru cerbyd hacni, yn gwisgo mewn safle amlwg (ar ran uchaf y corff NID wrth y canol) y bathodyn gyrrwr a roddwyd i'r trwyddedai gan y Cyngor sy'n dwyn y rhif sy'n cyfateb â'r rhif a neilltuwyd i'r trwyddedai yn y gofrestr a gedwir gan y Cyngor at y diben hwnnw.
3. Bydd y gyrrwr bob amser wedi'i wisgo mewn modd glân a phriodol a bydd yn ymddwyn mewn modd sifil a threfnus.
4. Gall y drwydded gael ei hatal, ei dirymu neu heb ei hadnewyddu gan y Cyngor:-
 - (a) os yw'r gyrrwr yn cyflawni trosedd neu fel arall yn methu â chydymffurfio â darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847;
 - (b) os yw'r gyrrwr wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd, anwedduster neu drais;
 - (c) pan fo trwydded wedi'i chael drwy roi gwybodaeth ffug neu anghyflawn, ystyrir defnyddio'r pwerau hyn yn ogystal ag erlyn ar gyfer y drosedd a gyflawnwyd;
 - (ch) am unrhyw reswm rhesymol arall;
5. Os yw'r gyrrwr yn cael ei wahardd rhag gyrru o dan unrhyw Ddeddf Traffig Ffyrdd, bydd y drwydded yn cael ei hatal yn awtomatig am gyfnod y gwaharddiad.
6. Bydd bathodyn y gyrrwr y cyfeirir ato yn amod 3 yn parhau'n eiddo i'r Cyngor ac os na chaiff trwydded y gyrrwr ei hadnewyddu neu os caiff ei dirymu neu ei hatal fel arall, bydd y trwyddedai yn dychwelyd y bathodyn hwnnw i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o hysbysiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Partneriaeth a Gweithredol y Cyngor yn gofyn i'r trwyddedai wneud hynny.
7. Bydd y trwyddedai, ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor neu unrhyw gwnstabl, yn cyflwyno i'w archwilio drwydded yrru naill ai ar unwaith neu cyn pen pum niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad y cais. Yn achos cais swyddog awdurdodedig, yn Swyddfeydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, ond yn achos cais gan gwnstabl yr heddlu, mewn unrhyw orsaf heddlu o fewn ardal y Cyngor ac a enwebwyd gan y gyrrwr adeg y cais.
8. Nid oes modd trosglwyddo'r drwydded ac mae'n ddilys am y cyfnod a nodir yn y drwydded.
9. Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod i newid o'r fath ddigwydd.

10. Ni chyflwynir trwyddedau nes i'r ffi briodol gael ei thalu. Pan fo'r ffi yn cael ei thalu drwy siec sy'n cael ei gwrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded yn cael ei dirymu o'r dyddiad y rhoddir gwybod i'r trwyddedai am ddirymiad o'r fath.
11. Dylai'r drwydded gael ei hadnewyddu ymhell ymlaen llaw i sicrhau dilyniant. Nid oes cyfnod gras awtomatig. **Mae Gyrru Heb Drwydded yn Drosedd.**
12. Ni fydd y perchennog yn achosi na gadael na chaniatáu i nifer fwy o bobl, heb gynnwys y gyrrwr, gael eu cludo yn y cerbyd na nifer y personau a nodir yn y drwydded a roddwyd.
13. Bydd pob person a fydd yn troseddu yn erbyn Is-ddeddfau'r Cyngor hyn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy.
14. Cludo cŵn tywys, clyw a chŵn cymorth eraill

Mae'r amod hwn yn gosod dyletswyddau ar yrrwr cerbyd hurio preifat sydd wedi'i hurio;

- (1) gan neu ar gyfer person anabl sydd yng nghwmni ei gi tywys, clyw neu gymorth
- (2) gan berson sy'n dymuno i berson anabl o'r fath fynd gydag ef yn y cerbyd hurio preifat
- (3) y dyletswyddau yw:
 - (a) cludo ci'r teithiwr a chaniatáu iddo aros gyda'r teithiwr a
 - (b) pheidio â chodi unrhyw dâl ychwanegol am wneud hynny.

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon ei bod yn briodol ar sail feddygol eithrio person rhag y dyletswyddau uchod, bydd yn rhoi tystysgrif eithrio. Wrth wneud yr asesiad, bydd yr awdurdod yn ystyried y meini prawf a nodir yn adran 37 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Bydd yr amod trwydded hwn yn cael ei osod ar drwyddedeion presennol o ddyddiad adnewyddu eu trwydded.

15. Mae angen y Dystysgrif Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd.
 - (a) Mae Tystysgrifau Meddygol yn cael eu cynhyrchu wrth roi trwydded, wrth adnewyddu am y tro cyntaf ar ôl troi'n 45 oed, ac yna bob pum mlynedd rhwng 45 oed a 65 oed a phob blwyddyn ar ôl troi'n 65 oed.
 - (b) Efallai y bydd gofyn i berson sy'n gwneud cais i adnewyddu trwydded gyflwyno gwybodaeth arall o'r fath y gofynnir amdani gan y Cyngor ar adeg gwneud y cais.
16. Mae rhoi Trwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat yn amodol ar basio'r Prawf Gwybodaeth.
17. Nid yw'r amod hwn yn gwneud niwed i amodau safonol eraill y Cyngor o ran rhoi Trwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat, ac amodau arbennig eraill a allai fod wedi'u gosod gan y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat benodol.
18. Wrth roi neu adnewyddu trwydded lle mae tystysgrif feddygol yn dod i ben yn ystod cyfnod y drwydded, bydd y trwyddedai yn cyflwyno'r dystysgrif feddygol a

gymeradwywyd i'r Cyngor heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad ysgrifenedig a roddwyd a oedd yn gofyn am gyflwyno'r dystysgrif.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Gyrwyr Cerbydau Hacni/Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat

Amodau Trwydded a Nodiadau Esboniadol

Bydd y trwyddedai yn cadw at ac yn cyflawni'r amodau canlynol:-

1. Ni fydd y trwyddedai yn aseinio nac mewn unrhyw ffordd ildio budd y drwydded, sy'n bersonol i'r trwyddedai.
2. Pan fo ffi'r drwydded yn cael ei thalu drwy siec sy'n cael ei gwrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded wedi'i rhoi yn cael ei dirymu o'r dyddiad y rhoddir gwybod i'r trwyddedai am ddirymiad o'r fath.
3. Ni chaiff y perchennog achosi na gadael na chaniatáu i nifer fwy o bobl, heb gynnwys y gyrrwr, gael eu cludo yn y cerbyd na nifer y personau a nodir yn y drwydded a roddwyd.
4. (a) Bydd gyrrwr y cerbyd hurio preifat sydd wedi'i hurio i fod yn bresennol ar amser ac mewn lle penodedig, oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal am reswm digonol, yn cyrraedd y lleoliad hwnnw ar yr amser penodedig yn brydlon.

(b) Bydd y gyrrwr, yn ôl cais yr huriwr, yn:-
 - (i) Cludo nifer resymol o fagiau;
 - (ii) Rhoi cymorth rhesymol i lwytho a dadlwytho, gan gynnwys cymorth i symud y bagiau i ac o fynedfa unrhyw dŷ neu fan arall lle mae'n casglu neu'n gollwng ei deithwyr;
(c) Bydd y gyrrwr yn union ar ôl i unrhyw gyfnod hurio ddod i ben, chwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael eu gadael yn ddamweiniol ynddo, ac os canfyddir eiddo o'r fath:-
 - (i) Lle mae enw a chyfeiriad y perchennog yn hysbys, dylai ddychwelyd yr eiddo hynny i'r perchennog, o fewn 24 awr; neu
 - (ii) Fynd ag eiddo o'r fath, o fewn 24 awr, i unrhyw orsaf heddlu yn y Fwrdeistref;
 - (iii) Bydd hawl gan y gyrrwr i dderbyn gan unrhyw berson y danfonir yr eiddo iddo swm sy'n gyfwerth â phum ceiniog o bob punt o werth amcangyfrifedig yr eiddo (neu'r ffi am y pellter o'r man lle daethpwyd o hyd i'r eiddo i'r heddlu neu gyfeiriad y perchennog) pa un bynnag sydd hwyaf ond dim mwy na phum punt.
5. Bydd y gyrrwr bob amser wedi'i wisgo mewn modd glân a phriodol a bydd yn ymddwyn mewn modd sifil a threfnus.
6. Cludo cŵn tywys, clyw a chŵn cymorth eraill

Mae'r amod hwn yn gosod dyletswyddau ar yrrwr cerbyd hurio preifat sydd wedi'i hurio;

- (1) gan neu ar gyfer person anabl sydd yng nghwmni ei gi tywys, clyw neu gymorth
- (2) gan berson sy'n dymuno i berson anabl o'r fath fynd gydag ef yn y cerbyd hurio preifat
- (3) y dyletswyddau yw:
 - (a) cludo ci'r teithiwr a chaniatáu iddo aros gyda'r teithiwr a
 - (b) pheidio â chodi unrhyw dâl ychwanegol am wneud hynny.

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon ei bod yn briodol ar sail feddygol eithrio person rhag y dyletswyddau uchod, bydd yn rhoi tystysgrif eithrio. Wrth wneud yr asesiad, bydd yr awdurdod yn ystyried y meini prawf a nodir yn adran 37 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Bydd yr amod trwydded hwn yn cael ei osod ar drwyddedeion presennol o ddyddiad adnewyddu eu trwydded.

7. Mae angen y Dystysgrif Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd.

- (a) Mae Tystysgrifau Meddygol yn cael eu cynhyrchu wrth roi trwydded, wrth adnewyddu am y tro cyntaf ar ôl troi'n 45 oed, ac yna bob pum mlynedd rhwng 45 oed a 65 oed a phob blwyddyn ar ôl troi'n 65 oed.
- (b) Efallai y bydd gofyn i berson sy'n gwneud cais i adnewyddu trwydded gyflwyno gwybodaeth arall o'r fath y gofynnir amdani gan y Cyngor ar adeg gwneud y cais.

8. Nid yw'r amod hwn yn gwneud niwed i amodau safonol eraill y Cyngor o ran rhoi Trwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat, ac amodau arbennig eraill a allai fod wedi'u gosod gan y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw Drwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat benodol.

9. Wrth roi neu adnewyddu trwydded lle mae tystysgrif feddygol yn dod i ben yn ystod cyfnod y drwydded, bydd y trwyddedai yn cyflwyno'r dystysgrif feddygol a gymeradwywyd i'r Cyngor heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad ysgrifenedig a roddwyd a oedd yn gofyn am gyflwyno'r dystysgrif.

10. Ni fydd y trwyddedai, wrth yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd hurio preifat, yn:

ceisio denu unrhyw berson ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall i hurio unrhyw gerbyd hurio preifat neu gael eu gludo drwy hurio mewn unrhyw gerbyd hurio preifat, na'n

achosi i unrhyw berson arall neu'n caffael unrhyw berson arall i geisio denu unrhyw berson ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall i logi unrhyw gerbyd hurio preifat neu gael ei gludo drwy hurio mewn unrhyw gerbyd hurio preifat, na'n

cynnig y cerbyd hwnnw i'w hurio ar unwaith tra bo'r trwyddedai neu'r cerbyd hwnnw ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall ar yr amod na fydd parcio'r

cerbyd hwnnw ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn doriad o'r amod hwn, na'n

derbyn cynnig ar gyfer hurio'r cerbyd hwnnw ar unwaith tra bo'r trwyddedai neu'r cerbyd hwnnw ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall ac eithrio lle mae cynnig o'r fath yn cael ei gyfleu gyntaf i'r trwyddedai dros y ffôn neu drwy offer ar gyfer telegraffi diwifr a osodwyd ar y cerbyd hwnnw.

Dan yr amod hwn:

Mae "ffordd" yn golygu unrhyw briffordd ac unrhyw ffordd arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddi ac mae'n cynnwys pontydd y mae ffordd yn mynd drostynt.

11. Gall y drwydded gael ei hatal, ei dirymu neu heb ei hadnewyddu gan y Cyngor:
 - (i) os yw'r gyrrwr yn cyflawni trosedd neu fel arall yn methu â chydymffurfio â darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;
 - (ii) os yw'r gyrrwr wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd, anwedduster neu drais;
 - (iii) am unrhyw reswm rhesymol arall.
12. Os yw'r gyrrwr yn cael ei wahardd rhag gyrru o dan unrhyw Ddeddf Traffig Ffyrdd, bydd y drwydded yn cael ei hatal yn awtomatig am gyfnod y gwaharddiad.
13. Bydd unrhyw berson sy'n cyflawni trosedd yn erbyn unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau hyn neu Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, nad oes cosb benodol yn cael ei rhoi mewn cysylltiad â hi, yn atebol ar golffarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na chant o bunnau.
14. Caiff gyrwyr cerbydau hurio preifat eu hatgoffa mai dim ond teithwyr sydd wedi archebu eu taith ymlaen llaw trwy weithredwr trwyddedig y gallant eu cludo. Ni chânt weithredu yn yr un ffordd â gyrwyr cerbydau hacni a byddant yn euog o drosedd os gwnânt hynny. Bydd gyrwyr cerbydau hurio preifat hefyd yn euog o drosedd os byddant yn arddangos arwyddion ac ati, yn y car neu ar y car sy'n awgrymu bod y car ar gael i'w hurio.
15. Mae gan y Cyngor y pŵer i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded am resymau priodol. Lle cafwyd trwydded drwy roi gwybodaeth anwir neu anghyflawn, ystyrir defnyddio'r pwerau hyn yn ogystal ag erlyn y drosedd a gyflawnwyd.
16. Dylai'r drwydded gael ei hadnewyddu ymlaen llaw i sicrhau dilyniant. Nid oes cyfnod gras awtomatig. Mae gyrru heb drwydded yn drosedd.
17. Bydd y trwyddedai, ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor neu unrhyw gwnstabl, yn cyflwyno i'w archwilio ei drwydded yrru naill ai ar unwaith neu cyn pen pum niwrnod, gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad y cais:-
 - (i) yn achos cais swyddog awdurdodedig, i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol y Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor;
 - (ii) yn achos cais gan gwnstabl yr heddlu, mewn unrhyw orsaf heddlu o fewn ardal y Cyngor ac a enwebwyd gan y cwnstabl adeg y cais.

Dan yr amod hwn:

mae "swyddog awdurdodedig" yn golygu unrhyw swyddog y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol neu ragflaenydd y Cyngor at ddibenion yr amodau hyn.

Mae "y Cyngor" yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

18. Bydd y gyrrwr, wrth yrru cerbyd hurio preifat, yn gwisgo mewn safle amlwg ar ran uchaf y corff, nid wrth y canol, y bathodyn gyrrwr a roddwyd i'r trwyddedai gan y Cyngor sy'n dwyn y rhif sy'n cyfateb â'r rhif a neilltuwyd i'r trwyddedai yn y gofrestr a gedwir gan y Cyngor. Rhaid dychwelyd bathodynnau i'r Cyngor ar unwaith pan fydd trwydded y gyrrwr gyda'r Cyngor yn dod i ben.
19. Bydd bathodyn y gyrrwr y cyfeirir ato uchod yn parhau'n eiddo i'r Cyngor ac os na fydd trwydded y gyrrwr yn cael ei hadnewyddu neu os caiff ei dirymu neu ei hatal fel arall, bydd y trwyddedai yn dychwelyd bathodyn o'r fath i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o hysbysiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol y Cyngor yn gofyn i'r gyrrwr wneud hynny.
20. Ni fydd y gyrrwr yn achosi i gerbyd hurio preifat aros wrth stondin cerbydau hacni.
21. Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod i newid o'r fath ddigwydd.
22. Bydd y trwyddedai yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig, o fewn saith diwrnod os bydd:
 - a) yn cael ei farnu'n euog o unrhyw drosedd neu'n derbyn rhybudd, rhybuddiad, hysbysiad cosb benodedig neu unrhyw fath arall o hysbysiad cosb.
 - b) yn destun unrhyw ymchwiliad troseddol sydd ar y gweill
 - c) yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad troseddol sydd ar y gweill
23. Bydd y trwyddedai yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod am:
 - a) unrhyw newid neu ddirywiad i'w iechedd sy'n gofyn am hysbysiad i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).
 - b) Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded presennol gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i ffitrwydd parhaus i yrru, gan ei feddyg teulu neu ei ymgynghorydd ei hun (fel y tybir sy'n briodol), yn ystod cyfnod y drwydded. Bydd tystiolaeth feddygol o'r fath yn cael ei chyflwyno gan y trwyddedai i'r Cyngor o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o dderbyn cais.

Dyddiad: Chwefror 2023